

Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Fron mewn Cleifion Hŷn (NABCOP) Taflen wybodaeth i gleifion

Beth yw Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Fron mewn Cleifion Hŷn?

Dechreuodd Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Fron mewn Cleifion Hŷn (NABCOP) ym mis Ebrill 2016 fel archwiliad clinigol i asesu ansawdd y gofal a ddarperir i fenywod 70 oed a hŷn gan wasanaethau cancer y fron y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'n archwilio pam mae'n ymddangos bod menywod hŷn sydd â chanser y fron yn cael canlyniadau gwaeth na menywod iau ac yn ymchwilio i wahaniaethau ymddangosiadol ym mhatriau'r gofal a ddarperir i fenywod hŷn. Mae'r Archwiliad yn archwilio'r llwybr gofal o'r diagnosis cychwynol hyd at ddiwedd triniaeth sylfaenol, ac yn cymharu sut mae patriau gofal cancer y fron ar gyfer menywod 70 oed a hŷn â'r rheini sy'n cael diagnosis rhwng 50-69 oed (gweler www.nabcop.org.uk am fwy o fanylion).



Beth yw archwiliad clinigol?

Archwiliad clinigol yw'r dull y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ei ddefnyddio i edrych ar ofal cleifion a'i wella drwy gymharu sut mae cleifion yn cael eu trin a chanlyniadau gofal ochr yn ochr â safonau a chanllawiau penodol.

Mewn archwiliad clinigol, cesglir y wybodaeth am y gofal a dderbynnir gan gleifion a'i dadansoddi i weld os yw clinigwyr ac ysbytai unigol yn dilyn safonau clinigol cenedlaethol, fel y rhai a gyhoeddir gan Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae'r archwiliadau hyn gan amlaf yn cynhyrchu gwybodaeth i ysbytai er mwyn cymharu eu canlyniadau gofal ag ysbytai eraill.

Pwy sy'n gyfrifol am NABCOP?

Mae'r archwiliad clinigol cenedlaethol yn cael ei redeg gan Sefydliad Llawdriniaethau'r Fron (ABS) ac Uned Effeithiolrwydd Clinigol (CEU) Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) yn Lloegr. Cawn ein hariannu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Canlyniadau Cleifion. Tîm prosiect yr Uned Effeithiolrwydd Clinigol sy'n rheoli NABCOP o ddydd i ddydd.

Pam mae NABCOP yn edrych ar ofal cleifion hŷn sydd â chanser y fron?

Rydym eisiau cefnogi'r broses o wella gofal mewn ysbytai i gleifion hŷn sydd â chanser y fron. Mae astudiaethau wedi dangos gwahaniaethau yn y gofal a roddir i gleifion iau a hŷn gyda chanser y fron. Bwriad NABCOP yw darganfod y gwahaniaethau hyn ac i ddeall pam mae'r gwahaniaethau hyn yn digwydd. Byddwn yn rhannu ein canfyddiadau gydag ysbytai yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn dweud wrth ysbytai ynglŷn â'r meysydd mewn gofal cancer y fron y maen nhw'n gwneud yn dda ynddynt a lle gallent wella. Bydd y canlyniadau hefyd ar gael i'r cyhoedd a chleifion.

Pwy sy'n cymryd rhan yn NABCOP?

Bydd pob ysbyty GIG yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnig gofal cancer y fron yn cymryd rhan yn NABCOP.

Pa gleifion fydd yn cael eu cynnwys yn NABCOP?

Byddwn yn edrych ar y gofal i gleifion a gafodd diagnosis o ganser y fron o 1 Ionawr 2014 ymlaen ac sy'n cael gofal yn ysbytai'r GIG yng Nghymru a Lloegr.

Pa wybodaeth fydd yn cael ei chasglu?

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am gleifion sydd eisoes wedi'i chasglu gan sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Cofrestru a Dadansoddi Canser Cenedlaethol (NCRAS) a System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC), yn ogystal â GIG Digidol. Caniateir i'r sefydliadau hyn gasglu data ar gleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser. I gael gwybod mwy am y wybodaeth a gesglir gan wasanaethau cofrestru cancer, ewch i wefan NCRAS - <http://www.ncras.nhs.uk/leaflets>

Am wybodaeth ynglŷn â'r data a gesglir gan GIG Digidol, ewch i <http://content.digital.nhs.uk/patientconf>.

Pwy fydd yn elwa o'r archwiliad hwn?

Bwriad yr archwiliad yw gwella'r gofal y mae cleifion â chanser y fron yn ei dderbyn. Byddwn yn gwneud hyn drwy wneud argymhellion i wasanaethau cancer yn seiliedig ar ein canfyddiadau. Er enghraifft, efallai y bydd NABCOP yn gwneud argymhellion ar:

- Sut cafodd menywod ddiagnosis
- Y math o lawdriniaeth y mae menywod hyn yn ei gael am ganser y fron
 - Y defnydd o radiotherapi ar ôl llawdriniaeth
- Y defnydd o cemotherapi

Bydd canlyniadau'r archwiliad ar gael yn gyhoeddus, gan gynnwys ar ein gwefan www.nabcop.org.uk

Sut mae cleifion yn cymryd rhan yn y NABCOP?

Byddwn yn cydweithio'n agos â chynrychiolwyr cleifion ar sawl agwedd drwy gydol y prosiect, o benderfynu pa wybodaeth i'w chasglu i sut caiff y canlyniadau eu hadrodd.

Sut alla i gysylltu â NABCOP?

Gallwch anfon e-bost atom yn nabcop@rcseng.ac.uk neu drwy ffonio 0207 869 6139

Fel arall, gallwch ysgrifennu atom yn:

National Audit of Breast Cancer in Older Patients
Clinical Effectiveness Unit
The Royal College of Surgeons of England
35-43 Lincoln's Inn Fields
London
WC2A 3PE

